

Nifer y busnesau Âr a oedd wedi cofrestru:

765

Nifer y busnesau Garddwriaeth a oedd wedi cofrestru:

373

Mentora



21 WEDI EU MENTORA AR THEMÂU YN YMWNEUD Â'R TIR
127 WEDI EU MENTORA O'R NEWYDD YN YSTOD Y CYFNOD HWN

Y testunau mwyaf poblogaidd yn ystod y cyfnod hwn oedd:

Llygredd dŵr



Sefydlu menter garddwriaeth



Rheoli coetir



Clinigau



CYNHALIWYD **200** O GLINIGAU YN YSTOD Y CYFNOD HWN

Roedd **60** o'r clinigau hyn yn glinigau samplu pridd gyda **246** o fusnesau'n elwa ohonynt.

Cafodd y clinigau hyn eu gweithredu gan ymgynghorydd a roddodd gyflwyniad wedyn i'r busnes ar y testun, ar ganlyniadau'r samplau ac yna unrhyw argymhellion yn dilyn dadansoddiad o'r canlyniadau.

Rhwydwaith Arddangos

Tomwelltydd meillion byw ar dir âr – safle arddangos Bryn

Nod y prosiect hwn oedd arddangos a dilysu tomwelltydd meillion byw fel opsiwn dilys, ymarferol a phroffidiol i ffermwyr â'r yng Nghymru. Ar Fferm Bryn, dangoswyd canlyniadau tebyg iawn gan y ddau gae a nodwyd fel rhai oedd wedi dangos samplau pridd tebyg ac wedi cael eu rheoli'n debyg i'w gilydd yn hanesyddol. Darparwyd rheolaeth cae pan heuwyd haidd y gwanwyn ar 31/03/2022. Heuwyd un cae o dan grwd o feillion gwyn AberPearl ac AberAce. I weld a oedd y meillion yn cael unrhyw effaith ar y cnwd haidd, gwnaethpwyd asesiad ar gam tywsennu'r cnwd. Casglwyd data am lawer o wahanol newidynnau ac mae'r tabl isod yn cymharu'r ddau gae.

O ddehongliad cychwynnol y data, perfformiodd y cae gyda thomwellt meillion yn well na'r cae rheolydd, ond roedd ganddo hefyd lefel lawer mwy difrifol o'r clefyd deiliog Blotyn. Roedd yn addawol i ddarganfod bod y meillion wedi egino a thyfu yn unol â'r haidd ac heb achosi gostyngiad yn y cynnyrch o ganlyniad i hynny. Pan gafodd yr haidd ei gynaeafu, y cynnyrch o'r cae rheolydd oedd 2.86t/erw, a'r cynnyrch o'r cae gyda'r tomwellt meillion oedd 2.93t/erw.

Roedd y tywydd wedi bod yn sych iawn dros yr haf, gan achosi sychder drwg ar y fferm. Roedd y boblogaeth feillion yn isel iawn (ffigur 3), ond ers y glaw ar ddechrau mis Medi, darparodd yr ailddyfiant meillion (ffigur 4) orchudd daear buddiol nes y cafodd ceirch y gaeaf eu drilio'n uniongyrchol ar 27 Medi. Gallai Huw, y ffermwr, bori gwartheg ar y meillion hefyd cyn hau. Bydd effeithiau'r tomwellt meillion ar sefydliad a thwf ceirch y gaeaf yn cael ei fonitro ymhellach.



Ffigur 1. Y gorchudd meillion 10 Awst 2022.



Ffigur 2. Y gorchudd meillion 27 Medi.

Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth



FFOCWS FFERMIO AR FFYNGAU: YSTYRIED ISLAW'R DDAEAR ER BUDD UWCHLAW'R DDAEAR



DEFNYDDIO MYCORRHISA: NATUR NEU FAGWRAETH



A FYDDAI CREIGIAU SILICA YN GALLU LLEIHU ALLYRIADAU AMAETHYDDOL?

Gwerthuso BOKASHI (Eplesu deunydd organig) – safle ffofws Llwynmendy

Ar safle ffofws Llwynmendy, cymerwyd dwy sampl o dail fferm organig i wneud dadansoddiad labordy NRM ohonynt er mwyn canfod y cynnwys maetholion. Mae'r ddau ddadansoddiad ar gyfer tail gwartheg, un sy'n dail fferm arferol a'r llall yn sampl o dail fferm wedi prosesu. Defnyddiwyd y drefn reoli Bokashi ar y tail fferm wedi prosesu. Mae'r adroddiad hwn yn argymhell pa faetholion fyddai'n cael eu taenu gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadur Manner, ar sail y gyfradd daenu arfaethedig. Nodwyd mai'r gyfradd daenu ar gyfer y ddwy sampl o dail fferm organig oedd taeniad ysgafn o 5t/ha (2t/erw) ar y glaswelltir yn ystod y tymor tyfu.

	Dry Matter % DM	Total Nitrogen Kg/t	Total Phosphate Kg/t	Total Potash Kg/t	Total Sulphur Kg/t	Total Magnesium Kg/t
NRM Standard FYM	21.7	5.36	1.97	12.42	2.08	0.81
RB209 (FYM)	25.0	6.0	3.2	9.4	2.4	1.8

Table 1: Standard FYM sample.

Roedd gan y dadansoddiad NRM o sampl tail safonol y fferm lefel is o gyfanswm deunydd sych, cyfanswm nitrogen, a chynnwys ffosffad, sylffwr a magnesiwm na'r ffigurau safonol RB209. Roedd y cynnwys potash cyfan yn uwch na'r ffigurau safonol.

Ffigur 2. Dadansoddiad a chymhariaeth NRM ar gyfer y sampl o dail fferm wedi prosesu gyda dadansoddiad tail RB209 cyfartalog safonol.

	Dry Matter % DM	Total Nitrogen Kg/t	Total Phosphate Kg/t	Total Potash Kg/t	Total Sulphur Kg/t	Total Magnesium Kg/t
NRM Processed FYM	20.1	3.9	2.5	7.77	2.17	1.09
RB209 (FYM)	25.0	6.0	3.2	9.4	2.4	1.8

Table 2: Processed FYM sample.

Roedd gan y dadansoddiad NRM o'r sampl tail fferm wedi'i brosesu lefel is o gyfanswm deunydd sych, cyfanswm nitrogen, a chynnwys ffosffad, potash, sylffwr a magnesiwm na'r ffigurau safonol RB209.

Nodwch: Mae'r cynnwys maetholion mewn tail da byw wedi ei gysylltu'n agos â'r deunydd sych, lle mae gan dail sydd â lefel uwch o ddeunydd sych lefel uwch o faetholion fesul tunnell neu m³ a daenir. Felly, mae angen addasu cyfraddau taenu i gyd-fynd â gofynion y cnwd mewn perthynas â lefel deunydd sych y tail a ddefnyddir.

Canlyniadau chwalu tail

Mae'r canlyniadau gan Manner yn dangos cyfanswm nifer y maetholion sy'n cael eu taenu ymhob chwaliad o dail fferm gwartheg ym mis Ebrill ar laswelltir ar gyfradd chwalu o 5t/ha (2t/acre) ar gyfer y ddwy sampl. Mae cynnwys maetholion y sampl tail fferm safonol, wedi ei chwalu ar yr wyneb yn ystod mis Ebrill ar gyfradd o 5t/ha, yn dangos bod cyfanswm o 2kg/ha o nitrogen sydd ar gael yn y pridd, cyfanswm o 10kg/ha o ffosffad a chyfanswm o 62kg/ha o botash yn cael eu cyflenwi i'r cnwd glaswellt. Mae'r cynnwys maetholion yn y sampl tail fferm wedi'i brosesu, wedi ei chwalu ar yr wyneb yn ystod mis Ebrill ar gyfradd o 5t/ha, yn dangos cyfanswm o 1kg/ha o nitrogen sydd ar gael yn y pridd, cyfanswm o 12kg/ha o ffosffad a chyfanswm o 39kg/ha o botash yn cael eu cyflenwi i'r cnwd glaswellt. Mae gan gynnwys maetholion y tail werth ariannol sylweddol ar sail ar y prisiau cyfredol am wrteithiau potash a nitrogen ffosffad. Mae'r rhaglen yn cyfrifo ei werth fel £98/ha am y tail fferm safonol, a £72/ha am y sampl tail fferm newydd wedi'i brosesu.

Defnyddio cysylltedd LoRaWAN i gasglu lefelau nitradau pridd, tymheredd a lleithder amser real mewn cnwd gwenith gaeaf – safle arddangos Pantyderi


Heuwyd gwenith gaeaf yn dilyn y pys a'r ffa ar safle arddangos Pantyderi ac, i helpu i asesu unrhyw nitrogen gweddilliol oedd wedi ei sefydlogi gan y cnwd codlysiau, gosodwyd synwryddion nitradau (oedd yn cael eu datblygu yn rhan o brosiect Innovate UK yn y John Innes Centre, Norwich) yn y pridd ar ddyfnder o 15cm ynghyd â synwryddion lleithder a thymheredd. Casglwyd a throsglwyddwyd data bob dwy awr drwy'r porth LoRaWAN ar y fferm. Datblygwyd ap er mwyn i bob parti allu gweld y canlyniadau.



Ffigwr 3: Set o synwryddion nitradau, tymheredd a lleithder pridd gyda throsglwyddydd LoRaWAN.

sefydlogi gan y cnwd codlysiau, gosodwyd synwryddion nitradau (oedd yn cael eu datblygu yn rhan o brosiect Innovate UK yn y John Innes Centre, Norwich) yn y pridd ar ddyfnder o 15cm ynghyd â synwryddion lleithder a thymheredd. Casglwyd a throsglwyddwyd data bob dwy awr drwy'r porth LoRaWAN ar y fferm. Datblygwyd ap er mwyn i bob parti allu gweld y canlyniadau.

Darlleniadau lefelau nitradau pridd ppm



Ffigwr 6. Darlleniadau synwrydd nitradau o fis Rhagfyr i fis Mawrth.

Ar yr adeg gosod, roedd canlyniadau data'r synwrydd yn dangos bod lefelau nitradau hydawdd ddwy i dair gwaith yn uwch nag y disgwyliid fel arfer fel lefel gwaelodol mewn pridd, ac nid oedd tystiolaeth o gwmp dilynol yn y lefelau i gynrychioli trwytholchiad a dadnitreiddiad dros y gaeaf. Y cyngor a roddwyd oedd caniatáu i'r lefelau nitradau ostwng o tua 20% cyn rhoi unrhyw wrtaith nitrogen.

Mae angen i'r pridd gyrraedd tymheredd o 7°C ar gyfer mwneiddio ac ymlifiad nitrogen ac ni chafodd y rhain eu cofnodi'n gyson tan ganol Ebrill yn y cae agored hwn ar 230m uwch lefel y môr.

Am na ddangoswyd llawer o amrywiad yn y darlleniadau nitradau ym mis Ebrill ar ôl rhoi gwrtaith nitrogen, barnwyd bod y synwryddion yn methu a chawsent eu tynnu a rhoddwyd rhai newydd ar 26 Mai. Cafodd y synwryddion a ddychwelwyd eu hail galibradu ac roedden nhw'n dangos sensitifrwydd gwael i nitradau, yn arbennig yn y crynodiadau is lle gwelir newidiadau manach.

Cafodd y gwaith treialu ei ddrysu ymhellach gan yr amodau eithriadol sych yn y gwanwyn a'r haf am fod y synwryddion nitradau yn mesur nitrogen dŵr-hydawdd. Efallai fod hyn hefyd wedi cyfrannu at yr amrywiad minimol a welwyd.

Mae gwaith yn parhau i fireinio cadernid y synwryddion ymhellach ar gyfer eu defnyddio dan amodau cae, ond argymhellir y dylent gael eu hamnewid yn y pridd bob 5-6 mis beth bynnag. Mae defnyddio cysylltedd LoRaWAN i gynaeafu a throsglwyddo data o'r fath yn rheolaidd wedi gweithio'n dda ac mae'r broses wedi gwrthsefyll cyflwr cae ac amodau tywydd eithafol heb unrhyw broblemau arwyddocaol.

Meincnodi Maetholion Grawn YEN

Cymerwyd samplau o rawn adeg cynaeafu o safle arddangos Pantyderi yn 2022 a'u cyflwyno i'r gwasanaeth 'Maetholion YEN', sy'n profi'r 12 maetholyn cnwd hanfodol ac yn eu meincnodi yn erbyn canlyniadau cenedlaethol. Roedd y canlyniadau pennawd ar gyfer y pedwar sampl o haidd gwanwyn, un o haidd gaeaf ac un sampl o wenith gaeaf yn dangos hyn:

- Roedd y cynydu i gyd wedi cynhyrchu'n dda ac wedi cyflwyno uwchlaw cyfartaledd pum mlynedd Defra
- Nid oedd y dadansoddiadau pridd wedi dangos unrhyw ddiffygion mewn ffosforws (P), potasiwm (K) neu fagnesiwm (Mg) yn y cae
- Roedd pH y pridd ychydig yn is na'r hyn sy'n optimaidd a byddai'n elwa o gael ei godi i'r targed o 6.5 ar gyfer cynhyrchu grawn er mwyn gwarantu'r argaeledd ac effeithiolrwydd maetholion gorau
- Nid oedd y crynodiadau maetholion grawn ar gyfer y macrofaetholion nitrogen (N), P a K yn isel nac yn uchel yn achos N
- Roedd boron yn isel ymhob un o'r cynydu a ddadansoddwyd, gan ddangos y dylid ystyried rhoi boron ar ddail ar gyfer y tymor sy'n dod

Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith arddangos

Safle arddangos Pantyderi, yn ymwneud â:

- Gwead y pridd, pH, canlyniadau ffosforws a photasiwm ar gyfer 100ha o dir
- Arbed calch ar dir â'r glaswelltir trwy ei daenu ar amrywiol gyfraddau
- Hau haidd y gwanwyn ar gyfraddau amrywiol
- Tyfu a chynaeafu cnwd deuol o bys a ffa
- Arbed costau a pherfformiad dograu biff yn cynnwys yr holl fwydydd porthi a dyfir ar y fferm
- Buddion ôl-troed carbon o dyfu pys a ffa
- Canlyniadau Meincnodi Maetholion Grawn YEN
- Defnyddio porth LoRaWAN i gasglu darlleniadau nitradau pridd, tymheredd a lleithder
- Canlyniadau Prosiect Priddoedd Cymru yn genedlaethol ac ar gyfer Pantyderi
- Y camau nesaf i'r fferm er mwyn datblygu gallu i wrthsefyll



Ffigwr 4: Map pridd o'r canlyniadau ffosforws (P) a photasiwm (K).

27.10.22 Adeiladu gardd farchnad lwyddiannus drwy'r dull dim palu

Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ar safle ffocws Cae Newydd, Brynman Uchaf, lle mae llysiâu'n cael eu tyfu ar raddfa fasnachol i gyflenwi marchnadoedd ffermwyr drwy dde Cymru gyfan.

Sefydlwyd y gwelyau cyntaf bum mlynedd yn ôl drwy osod rhwystr cardbord ar welyau 30 modfedd o led a'u gorchuddio â thail ceffyl, gyda llwybrau sglodion pren rhwng y rhesi. Sefydlwyd gwelyau pellach mewn ffordd debyg ond gan ddefnyddio compost gwastraff gwyrdd. Yn fwy diweddar, mae cynydu gorchudd gwrtaith gwyrdd yn cael eu defnyddio mewn gwelyau mwy newydd i gynyddu deunydd organig yn gyflymach.

Roedd samplau pridd a gymerwyd â phicell yn dangos bod dyfnder y pridd tywyll llawn deunydd organig yn uniongyrchol gysylltiedig â hyd yr amser yr oedd y gwelyau wedi bod yn sefydledig. Islaw hyn, roedd y pridd yn glai gyda smotiau o rwd, sy'n dynodi gleio a chywasgu, wedi ei waethygu gan y glaw trwm ar lethr deheuol y Mynydd Du ac ar uchder o 270 metr.

Cadarnhaodd Chris Creed, ymgynghorydd garddwriaeth ADAS, bod garddio gyda'r lefel isaf o amaethu yn gostwng yr amser chwynu yn sylweddol a'i fod yn fuddiol i'r pridd ac i'r amgylchedd, ond cododd y pwyntiau dilynol:

- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd i'r gweithredu biolegol yn y pridd setlo, sy'n golygu ar y dechrau bod y cynnyrch cynydu yn is
- Dylai gwrtaith a brynir i mewn gael ei gompostio'n gywir ar y safle gan ddefnyddio rhenciau 1.5m o uchder, sy'n cael eu troi'n wythnosol i awyru a chymysgu'r cynnwys, gan gynhyrchu tymhereddau uchel
- Byddwch yn ymwybodol o'r posibilrwydd bod gweddillion o blaladdwyr a ddefnyddir i glirio creulys i'w cael mewn rhai gwrteithiau, gan olygu bod angen creu prawf bio gan ddefnyddio cnwd sy'n dueddol o gael eu heffeithio, fel ffa, cyn ei ddefnyddio'n gyffredinol
- Profwch statws maetholion y pridd llawn gwrtaith ac os yw'r mynegrif ffosfad (P) yn 3 neu'n uwch, peidiwch â rhoi rhagor o addasiadau llawn P



Ffigwr 5. Chris Creed yng Nghae Newydd.

- Er bod gadael malurion cynydu yn dda fel gorchudd pridd, byddwch yn ofalus nad yw'r cnwd yn mynd yn fraenar, gan adael i lawer o chwyn newydd dyfu

Defnyddio bio-ologsg i addasu'r tir



Ffigwr 6: Tony Davies, William Roberts, Owain Rowlands (EIP Wales), a Oliver Kynaston.

Cafodd bio-ologsg, math o siarcol a gynhyrchwyd yn ystod pyrolysis ac y gwyddys ei fod yn cynyddu atafaelu carbon, ei roi ar brawf ar bedwar safle fel astudiaeth Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) Cymru.

Yn ystod diwrnod agored Cyswllt Ffermio ar un o'r safleoedd hynny, Cae Newydd ym Mrynaman Uchaf, dangosodd y canlyniadau achos cryf dros ddefnyddio bio-ologsg wedi'i gymysgu â chompost gwlan dafad.

Cynhyrchwyd y bio-ologsg, a wnaed o laswellt Molinia, a'r compost gan Tony Davies ar ei fferm yn Rhaeadr Gwy.

Pan ddefnyddiwyd cyfuniad o bio-ologsg a chompost ar 30t/ha, dangosodd y treial gynnydd o 14.8% mewn perfformiad cynydu ar gyfartaledd ar draws pob safle a math o lysiau o'i gymharu â'r lleiniau rheoli.

Cyflawnodd bio-ologsg ar ei ben ei hun, wedi'i ymgorffori ar 10t/ha, gynnydd o 8.2%.

Ar gyfer y lleiniau lle mai dim ond compost gwlan a roddwyd, ar 30t/ha, gostyngodd y cynnyrch 7%.

Roedd y treialon yn cynnwys cynydu radis, basil, courgettes, indrawn a bresych a chynhaliwyd 14 arbrofion gyda phob un o'r ceisiadau ar gyfraddau gwahanol, i gymharu â'r lleiniau rheoli.

Goruchwyliodd Oliver Kynaston, ymgynghorydd sydd ag arbenigedd yn y maes hwn, y treial a dadansoddod y canlyniadau.

"Dangoswyd bod ychwanegu bio-ologsg at y pridd yn ystod y treialon hyn yn dda ar gyfer perfformiad cynydu," meddai.

"A phan fo'r amodau tyfu yn eithaf gwael, er enghraifft yng ngwres yr haf pan nad oes digon o leithder, mae'r cynydu a dyfir gyda bio-ologsg a chompost yn perfformio ddwywaith hefyd oherwydd ei fod yn gwella gallu dal dŵr y pridd.

"Mae'r treial hwn wedi dangos i mi y gallai bio-ologsg fod yn fewnbwn i'w ystyried wrth symud ymlaen pan fydd ar gael yn haws ac yn fforddiadwy."

Gweminarau



GWEMINARAU A DIGWYDDIADAU A GYNHALIWDYD **39** gyda **1,519** O WYLLWYR NEU FYNICHWYR

Dyma enghreifftiau o weminarau a gynhaliwyd:

Gweithdy Map Risgiau



Adolygiad o Brosiect Porfa Cymru 2022



Rhithdaith Ryngwladol

Mae'r ffilmiau a ryddhawyd o dan y thema hon yn y cyfnod yn cynnwys:

▶ GWNEUD Y BYD YN LLE GWELL DRWY FFERMIO PERMADDIYLLIANNOL

▶ ARFERION TYFU GLASWELLT YN Y FFINDIR

▶ GOSTWNG TRWYTHIAD NITRADAU PORI'R GAEAF GYDA BYRGNYDAU



Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi cael cymorth trwy gyfrwng Categoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



Cafodd **37** o unigolion gymorth un-i-un trwy gyfrwng Categoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd **90** o grwpiau, yn cynnwys **292** o unigolion, gefnogaeth drwy Categoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau am ddarpariaeth y gwasanaeth cyngori hwn:

"Bydd y gwasanaeth hwn yn arbed arian i'r fferm a bydd yn well i'r amgylchedd. Mae o fudd i'r ddwy ochr."

"Trafodaethau eithriadol ddefnyddiol er mwyn deall ein canlyniadau."

"Gwasanaeth a chyfathrebu rhagorol."

Grwpiau Trafod



Roedd Cheryl Reeves, cadeirydd **Grŵp Trafod y Ffermwyr Pesgi Biff yng Ngogledd Cymru** wedi cymryd rhan mewn treialu bio-wrteithiau a gyflenwyd gan Russell IPM, sy'n arbenigwyr mewn fferomonau pryfed ac atebion bio-resymegol eraill ar gyfer diogelu cynydu. Mae'r cwmni wedi ei seilio yng Nglannau Dyfrdwy, Gogledd Cymru ac mae wedi datblygu'r bio-wrtaith hylifol yn fewnol. Mae bio-wrtaith yn wrtaith naturiol sy'n cynnwys biomas byw neu gelloedd cwsg y mathau effeithiol o ficrobau, sy'n cynyddu argaeledd y maetholion i'r planhigion. Mae'n cael ei roi fel hylif ac mae'n treiddio i'r planhigion ac yn actifadu yn y gell.

Gwahoddwyd Abu Ali o Russell IPM i siarad â'r grŵp am y dull newydd hwn a'i drafod fel opsiwn amgen yn lle gwrteithiau wedi eu gweithgynhyrchu'n synthetig, gan drafod hefyd sut mae'r treial bach wedi mynd ar fferm Cheryl. Gan gofio bod cost gwrteithiau confensiynol wedi cynyddu'n ddramatig yn y 12 mis diwethaf, a'u bod yn dal i edrych yn ddrud ar gyfer y gwanwyn, roedd gan aelodau'r grŵp ddi-ddordeb mewn dysgu am unrhyw opsiynau eraill, yn ogystal â chanlyniadau'r treial bach. Roedd Cheryl wedi trin hanner y cae gyda gwrteithiau wedi eu gweithgynhyrchu yn y ffordd arferol a'r hanner arall gyda bio-wrteithiau, ac felly gellid gwneud cymhariaeth weledol yn hawdd. Soniodd am ganlyniadau cadarnhaol yn nhyfiant y glaswellt yn y rhan honno o'r cae a driniwyd gyda bio-wrtaith.

Mae gan aelodau'r grŵp ddi-ddordeb mewn treialu'r cynnyrch eu hunain yn y flwyddyn sy'n dod.

Hyfforddiant

Cyrsiau	Nifer o unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn
Tryc Codi Telesgopig ar gyfer Tir Garw	44
Dyfarniad L2 mewn Defnydd Diogel Pleiddiaid (PA1) a (PA2)	28
Rheoli Coetir ar gyfer Cadwraeth	24
Rheoli Gwahaddod – Technegau Trapio	18
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thrawslifio	16

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

DIOGELWCH AR Y FFERM – GWEITHIO'N DDIOGEL GYDA THRACTORAU

GWELLA IECHYD PRIDD

SYSTEMAU PORI

ADNABOD COED

Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

